**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

12 Hydref 2022

Annwyl gyfaill

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Siawns eich bod yn ymwybodol y cafodd Bil Cyfraith yr UE (Dirymu a Diwygio) a Ddargedwir (y Bil) ei gyflwyno yn Senedd y DU ar 22 Medi 2022.

Pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'n rhoi ar waith gynllun Llywodraeth y DU i ddirymu neu ddiwygio tua 2,400 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir gyda'r Llywodraethau datganoledig er mwyn penderfynu beth i'w gadw, ei ddiwygio neu ei ddileu. Byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na Seneddau, i newid tirwedd reoleiddio a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

Efallai y byddwch hefyd yn ymwybodol bod Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, gan ddatgan nad oedd gan Lywodraeth Cymru fawr ddim dylanwad ar y Bil. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i gadw a pharchu uniondeb cyfansoddiadol a setliad datganoli Cymru. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor ym mis Awst, gan ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gennym am y Bil. Mae dadansoddiad cychwynnol o'r Bil o safbwynt Cymru wedi'i gyhoeddi ar ffurf erthygl gan Ymchwil y Senedd.

O ystyried arwyddocâd y Bil hwn, rydym yn cysylltu â chi er mwyn rhoi cyfle i chi rannu eich barn ar ei ddarpariaethau. Yn benodol, byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau ar y materion a ganlyn:

- effaith y Bil yng Nghymru;
- i ba raddau y gallai'r Bil effeithio ar dirwedd reoleiddio Cymru;

- pa rôl ddylai'r Senedd ei chael yn y broses o ddirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig;
- y goblygiadau sy'n deillio o'r terfynau amser posibl a gyflwynir gan y Bil;
- penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys peidio â ffurfio barn ei hun ynghylch yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn a gedwir yn ôl;
- gallu Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad o'r fath ac i ddefnyddio ei phwerau o dan y Bil;
- rôl Llywodraeth Cymru yn yr adolygiad ar y cyd a gynhelir gan Lywodraeth y DU, a'i chynlluniau ar gyfer yr adolygiad hwnnw, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil;
- cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru yn sgil y Bil, gan gynnwys y gweithdrefnau craffu sydd ynghlwm wrth y pwerau hynny;
- p'un a yw'r Bil yn debygol o osod cyfyngiadau newydd ar Lywodraeth Cymru, sydd am wella'r safonau a oedd yn bodoli cyn Brexit, lle bo modd;
- y camau y gallai'r Pwyllgor eu cymryd yn y dyfodol, gan gynnwys camau sy'n berthnasol i'r pwerau a gaiff eu harfer o dan y Bil;
- y goblygiadau i dirwedd gyfreithiol Cymru, gan gynnwys cyflwyno categorïau newydd o ddeddfwriaeth, a materion sy'n ymwneud ag eglurder a hygyrchedd.

Er mwyn sicrhau bod eich sylwadau yn llywio ein gwaith craffu ar y Bil ac unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol dilynol a gaiff eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw sylwadau yr ydych am eu gwneud atom erbyn 7 Tachwedd 2022.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yr amserlen hon yn dynn. Ein nod yw sicrhau bod modd cwblhau ein trafodaethau ffurfiol ar y Bil mewn da bryd iddynt allu dylanwadu ar y broses ddeddfwriaethol yn Senedd y DU. Os yw'r amserlen dynn hon yn debygol o achosi problem sylweddol i chi, dylech gysylltu â Chlercod y Pwyllgor – SeneddDCC@senedd.cymru

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Darparu tystiolaeth ysgrifenedig

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

## Datgelu gwybodaeth

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.